

## Baw ci

I'r rhai ohonoch chi sydd berchen ci, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael gwared â baw eich ci yn ddiogel. Cofiwch y niwed difrifol y gall o beri i bobl eraill!

Yn anffodus does DIM CŴN i fynd ar dir yr ysgol ar unrhyw bryd. Mae hyn yn cynnwys y parc a'r pafiliwn cymunedol. Mae Gwardeiniaid Cŵn Conwy a'r heddlu lleol wedi cael gwybod am y pryderon ynglŷn â nifer y cŵn a welwyd ar neu o gwmpas cae'r ysgol. Mae'n bosib y daw rhywun o un o'r ddwy asiantaeth ar unrhyw adeg i frwr golwg. Gall hynny olygu dirwy yn syth bin!

### Eglwys Sant Gwyddelan

- 15<sup>fed</sup> o Fawrth Sul y Mamau – 9.30yb
- 22<sup>ain</sup> o Fawrth Sul y Dioddefaint – 9.30yb
- 29<sup>ain</sup> o Fawrth Sul y Blodau – 9.30yb
- 3<sup>ydd</sup> o Ebrill Gwener y Groglith - (Amser i'w gadarnhau)
- 5<sup>ed</sup> o Ebrill Sul Pasg– 9.30yb

### Capel Moriah

Ysgol Sul bob dydd Mercher  
3yp – 4yp

- Dydd Mawrth 3ydd o Fawrth 6.30yh yn y pafilion 'Cylch Yr Ifanc Dysgwyr'
- Dydd Mawrth 24fed o Fawrth 5yh – 6yh 'Tawelwch Noddedig' 'Cylch Yr Ifanc'

---

## Gwener Gwerthu Ben Bwrdd

Diolch i gefnogaeth gan y bobl leol, yn cynnwys Eunice a'i gwirfoddolwyr, mae Gwener Gwerthu Ben Bwrdd yn mynd o nerth i nerth! Os oes gennych chi unrhyw beth nad oes arnoch ei eisiau, cofiwch ein bod ni bob tro'n falch o roddion. Dewch â nhw un ai i'r Pafiliwn Cymunedol neu ewch â nhw at Eunice Cawley 'Penlan'.